# WILLIAMS, JAMES (1812 - 1893), cenhadwr yn Llydaw dan y Methodistiaid Calfinaidd

**Enw:** James Williams
**Dyddiad geni:** 1812
**Dyddiad marw:** 1893
**Priod:** Catherine Williams (née Jones)
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cenhadwr yn Llydaw dan y Methodistiaid Calfinaidd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn Nhalacharn 5 Tachwedd 1812; gof wrth ei grefft. Ymunodd â'r Methodistiaid Calfinaidd dan weinidogaeth (y Dr.) Lewis Edwards yno; dechreuodd bregethu tua 1835, ac aeth i athrofa newydd y Bala yn 1837 - cerddodd bob cam o Dalacharn i'r Bala. Yn 1842 anfonwyd ef i Lydaw i gychwyn cenhadaeth; ymddeolodd yn 1862, ond ailymwelodd â Llydaw yn 1877 a 1882; am fanylion ei anawsterau a'i waith yno, gweler llyfr J. H. Morris a enwir isod. Bwriodd ei fywyd ar ôl 1869 yng Nghaer, lle y bu farw 1 Medi 1893; claddwyd ym medd ei wraig (Catherine, ferch y Parch. Richard Jones, 1784 - 1840, o'r Bala), ym mynwent Llanycil.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau


J. Hughes Morris, *Hanes Cenhadaeth Dramor y Methodistiaid Califinaidd Cymreig hyd ddiwedd y flwyddyn 1904* (Caernarfon 1907)

*Bywyd a Llythyrau y Diweddar Barch. Lewis Edwards, M.A., D.D.* (Liverpool 1901)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20821427


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu